



WHEN THE ADULTS CHANGE

Cwrs Ymddygiad Paul Dix

Sain: Trawsysgrif - Yr ymyrraeth dwy funud gorau

Mae sawl sgwrs cyflym am ymddygiad yn digwydd mewn ysgolion pob dydd. Mae'r rhain yn sgysiau hanfodol, y rhai sydd yn gyfrifol am y gwahanaeth rhwng esgyniad neu dychwelyd yn ôl i weithio. Dydy ymddygiad penderfynol yr oedolyn byth mor benderfynol na phan nad yw'r plentyn yn dilyn canllawiau neu mae eu hymddygiad yn ansicr.

Does neb byth wedi gwella canlyniadau plentyn trwy eu cymryd allan o'r dosbarth a manylu ar eu beiau. Mae'r sgwrs rydych chi'n ei gael gyda'r plentyn i geisio ail-gychwyn disgwyliadau yn un sydd yn aml heb ei gynllunio. Fodd bynnag, mae llunio'r sgwrs yn effeithiol yn golygu bod y cyfle gorau gyda chi o dychwelyd at y dosbarth yn barod i ddysgu. Wedi ei wneud yn dda, bydd dwy funud yn ymddangos yn rhy hir. Dychwelyd i ddysgu ydy ffocws y sgwrs. Os ydych chi'n dechrau dad-bigo beth sydd newydd ddigwydd y funud rydych chi'n cerdded allan o'r drws, fe fydd hi'n broses hirach a llai cynhyrchiol. Fe fydd hyn yn anodd i ddechrau, achos bydd y disgybl yn disgwyl i hwn fod yn destun y sgwrs. "Fi?" Rydych chi'n gofyn i fi gamu allan?" Roedd Carmel yn ffrydio'n fyw sut i wynnu dannedd ar Twitch o dan y ddesg a rydych chi'n gofyn i fi gamu allan?" Fodd bynnag faint o demtasiwn ydy hi . Nid yw'r amser gyda chi a dydy'r disgybl ddim wedi ennill yr hawl i reoli'r topig. Mae'r funud

hon yn brawf o'ch gallu i symud eich ymddygiad er mwyn cael y canlyniadau gorau. Bydd yr egni uchel, dwys a hyd yn oed yr awyrgylch gwyllt o'r dosbarth yn wrthgyferbyniad sydyn i'r tawelwch a llonyddwch tu ôl i'r drws caeedig. Weithiau mae'n helpu i ollwng eich ysgwyddau, anadlu a chymryd munud i ymgynefino eich hunan i'r naws newydd. Efallai nad dyma'r amser am eich 'llais athro' gorau, er bod cliché yn ofynnol ei fod e. Yn hytrach, mae'n foment wych am ostyngeddwydd, chwilfrydedd a datrys cryf. Cadw pellter cymdeithasol ydy eich ffrind yma. Bydd pellter o ddau fetr yn rhoi'r lle i bawb sydd ei hangen. Does neb yn elwa o fod yn agos iawn at ei gilydd, yn enwedig pan yn siarad am eu hymddygiad - feirws ai peidio. Os ydych chi'n mynd i gael eich gorfodi i edrych mewn i ddrych, mae angen i chi gweld eich hunan yn unig, nid rhywun arall a allai gael ei feio.

Pan rydych chi'n cyrraedd lle i siarad, gwrthsefwch yr ysfa i ffeindio trosedd amherthnasol y dylid cael ei wiro. Efallai bydd amser a lle am y trafodaeth honno, ond peidiwch a gadael iddo drysu pethau nawr. Yn debyg, triwch anwybyddu adweithiau corfforol oni bai eu bod yn atal y sgwrs rhag digwydd. Anwybyddwch y wen, y sleifio neu unrhyw un o'r sawl ymddygiad eilradd sydd yn amherthnasol i'r ymddygiad presennol. Ceisiwch osgoi'r temtasiwn i adnabod ailadrodd. "Dyma'r trydydd tro yr wythnos yma rwy'ti wedi dewis torri'r rheolau" neu i labeli neu i farnu. "Ti oedd hi; wnest tii hynny yn bwrpasol." Mae yna chwech awgrym ar gyfer ail-setio a ddychwelyd i drefn....

Un, dechreuwch gyda chwilfrydedd a lle i'r plentyn siarad. "Wyt ti'n iawn? Roeddwn i'n meddwl y bydd hi'n well i siarad i ffwrdd o bopeth. Roeddwn i'n pendroni beth oedd yn bod."

Dau, derbyn ble ydyn ni. "Gofynnais i siarad gyda ti achos sylweddolais dy fod yn cael trafferth i gadw at ein rheolau."

Tri, gwnewch arwydd pan rydyn ni'n mynd. "Saib yn unig ydy hon. Rydw i eisiau i ti dychwelyd i weithio."

Pedwar, ailgychwynwch disgwyliadau. “Rydyn ni wedi cytuno mai Diogelwch ydy un o’n rheolau. Rydw i am i ti....”

Pump, cynnigwch help. “Beth wyt ti angen mwyaf i dy helpu dychwelyd at ddysgu?”
Neu “Sut gallaf dy helpu nawr?”

Chwech, cynlluniwch ddychwelyd i fynd nôl mewn i’r ystafell. “Iawn, anadla. Mae’n rhaid i ni ddychwelyd, cyrraedd dy desg, achub gwyneb.” Wrth gwrs, mae’r ffordd rydych chi’n gofyn i ddisgybl adael y dosbarth yn gosod y nawws am weddill y sgwrs. Rydw i wedi camfarnu hyn yn aml ac wedi danfon y plentyn allan yn lle gofyn iddynt gamu allan. Os ydy dicter y plentyn yn cael ei gyfeirio ata i o’r funud rydyn ni’n dechrau’r sgwrs a dydw i ddim wedi ei cydnabod, yna mae’r sgwrs yn mynd i fod yn her fawr.

Mae’r egwyddor o gadw eich emosiynau allan o’r ymyrriadau yma gwerth cofio hefyd. Bydd yr arfer ail-setio yn helpu, ond mae munud hefyd pan mae’r drws yn cau a rydych chi’n edrych mewn i lygaid eich gilydd. Mae cymaint yn ddi-lafar ond eto yn glir iawn. Mae’r plentyn yn ceisio eich darllen tra rydych yn ceisio darllen y plentyn. Cyn i chi agor eich ceg, gwirwch beth rydych chi eisioes wedi dweud yn gorfforol. Gostyngwch eich ysgwyddau, ymlaciwch eich bysedd bawd a rhowch eich dwylo wrth eich ochr. Os oes arfer gyda chi o ddefnyddio llawer o ystumiau, efallai mai yma fydd yn amser da i wrthsefyll rhain.

Bydd rhai plant angen ychydig yn hirach i anadlu, adfer a cherdded nôl i mewn. Weithiau, bydd yn rhaid i chi ddychwelyd ar wahan i adfer balchder y plentyn. Mae’r consensiynau yma yn bwysig. I ddechrau, bydd y plentyn yn gwiro eich cyflwr emosiynol wrth i chi ail ddechrau ddysgu. Ar ôl tipyn, bydden nhw’n sylweddoli nad ydych yn datgelu dim. Gall sut mae’r plentyn yn dychwelyd, effeithio ar ei allu i aros. Dydych chi ddim am iddyn nhw gerdded yn ôl i mewn gan gymryd cymeradwyaith a dydych chi ychwaith ddim am yr “oooooo” cyfunol wrth iddynt berfformio’r camau o warth. Mae cael sgwrs llonydd ac wedi ei gynllunio’n ofalus yn denu llai o sylw na’r dulliau cosbi uchel eu sŵn sy’n stopio pawb i weithio tra wrandawyd ar y cyflafan.

Mae gosod rhythm newydd i'r ymyrriadau byrion yma yn eu gwneud yn fwy rhagweladwy, diogel ac effeithiol. Mae lleihau'r nifer o blant sy'n gadael y dosbarth, tra'n sicrhau bod pawb yn aros o fewn y ffiniau, yn ffordd o gau'r ystafell gwared yn gyfan gwbl a chreu model o arfer cynhwysol. Darn bach o heddwch.